

2021 Rhif (Cy.)

2021 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A483
(Llanelwedd, Powys) (Terfyn
Cyflymder 20 mya Rhan-amser)
2021

The A483 Trunk Road
(Llanelwedd, Powys) (Part-time
20 mph Speed Limit) Order
2021

Gwnaed 16 Mehefin 2021
Yn dod i rym 18 Mehefin 2021

Made 16 June 2021
Coming into force 18 June 2021

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A483, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 84(1)(c), (1A) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A483 trunk road, in exercise of the powers conferred upon them by sections 84(1)(c), (1A) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchymynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(2).

The Welsh Ministers have consulted with the Chief Officer of Dyfed-Powys Police and given public notice of their intention to make this Order in accordance with regulations 5(1) and 6(1) of the Secretary of State's Traffic Orders (Procedure) (England and Wales) Regulations 1990(2).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Llanelwedd, Powys) (Terfyn Cyflymder 20 mya Rhan-amser) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Mehefin 2021.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A483 Trunk Road (Llanelwedd, Powys) (Part-time 20 mph Speed Limit) Order 2021 and this Order comes into force on 18 June 2021.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—
ystyr "cerbyd esempt" ("exempted vehicle") yw:

Interpretation

2. In this Order—
"exempted vehicle" ("cerbyd esempt") means:

- (1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weiniogion Cymru o ran Cymru.
- (2) O.S. 1990/1656, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/802. Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weiniogion Cymru o ran Cymru.

- (1) 1984 c. 27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c. 40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c. 22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672 and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.
- (2) S.I. 1990/1656, as amended by S.I. 2020/802. By virtue of S.I. 1999/672 and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1);
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel.

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach nag 20 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 320 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Llanelwedd yr A470/A483 hyd at bwynt 695 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gylchfan honno yn Llanelwedd, Powys.

Cymhwyso

4. Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, wrth weithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

16 Mehefin 2021

Nicci Hunter

Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefinol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29 o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Ddraoleiddio 2015 (p. 20).

- (a) any vehicle being used by the emergency services for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1);
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
- (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
- (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds.

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A483 Swansea to Manchester trunk road.

Restriction

3. No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 20 miles per hour on the length of the trunk road that extends from a point 320 metres north-east of the centre-point the A470/A483 Llanelwedd Roundabout to a point 695 metres north-east of that roundabout at Llanelwedd, Powys.

Application

4. The restriction in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

16 June 2021

Nicci Hunter

Business Team Leader
Welsh Government

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29, and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

